Siân Robinson gwpan yn y gystadleuaeth i ferched dan ddeg ac enillodd Callum Stone darian yn y gystadleuaeth i fechgyn dan ddeg oed.

Karate

Yn ystod ein gwasanaeth boreol rhai wythnosau 'nôl cafwyd arddangosfa arbennig o dechneg Karate gan ddau o ddisgyblion blwyddyn 5. Mae Mark Griffiths ac Aled Jones yn mynychu gwersi Karate yn y Canolfan Hamdden dwy neu dair gwaith yr wythnos. Mae Mark eisioes wedi ennill gwregys brown gyda dwy streip wen ac mae Aled wedi ennill gwregys porffor. Daliwch ati fechgyn.

Gwyddonwyr ifanc

Mae gan Callum Stone blwyddyn 4 feddwl chwilfrydig, ac er mwyn cael atebion i'r holl gwestiynau sy'n ei boeni fe benderfynodd ysgrifennu llythyr i'r Adran Ffiseg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Y ddau brif gwestiwn ar feddwl Callum oedd "Beth oedd yn bodoli cyn y gofod?" a "Sut ddaeth y sêr a'r planedau i fodolaeth?" Er mwyn ceisio ateb ei gwestiynau gwahoddwyd Callum a'i gyd-ddisgyblion ym mlwyddyn 3/4 i dreulio'r bore yn yr Adran Ffiseg. Cafodd pawb amser cofiadwy a recordwyd y cyfan gan y cyfryngau. Roedd un syrpreis arall ar ôl i Callum pan dderbyniodd anrheg a fydd yn ei gadw'n brysur am sbel sef model o Shuttle Gofod NASA.